

❖ EMYN MAWL MAIR: BWRDD YR ARGLWYDD

Luc 1:46–55

Sut mae cysylltu Emyr Mawl Mair â Bwrdd yr Arglwydd? Anodd iawn yw cael llawenydd, didwyll a ffug, mawl a meddwi'r ŵyl i asio â Bwrdd y bwyta, yfed a chredu. Mae bwrlwm y naill yn taro yn erbyn tawelwch y llall. Luc yw'r unig Efengylwr sy'n cofnodi Emyr Mawl Mair; cwyd un thema fel cywair i'r Efengyl gyfan: 'Gwnaeth rymuster â'i fraich, gwasgarodd y rhai balch eu calon; tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distadl...' (Luc 1:51–52). Yn Efengyl Luc, mae Ioan, y Bedyddiwr miniog, yn newid ychydig ar eiriau mawr Eiseia, i sôn am bob mynydd a bryn wedi ei lefelu (Luc 3:5). Sôn am ostwng mynydd a bryn mae Eiseia (Eiseia 40:4), ond myn Ioan y bydd Duw yn lefelu popeth! Mae'r syniad o Dduw yng Nghrist yn lefelu popeth yn allweddol bwysig i Luc. Awdur peryglus ydoedd!

'Pan welodd Iesu y tyrfaoedd, aeth i fyny'r mynydd... daeth ei ddisgyblion ato. Dechreuodd eu hannerch a'u dysgu fel hyn: Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd...' (Mathew 5:1–3). Gallwn gymharu Mathew â Luc: 'Aeth i lawr gyda hwy... gyda thyrfawr o'i ddisgyblion, a llu niferus o bobl... Yna cododd ef ei lygaid ar ei ddisgyblion a dweud: "Gwyn eich byd chwi'r tlodion ..."' (Luc 6:17–20). Roedd Luc yn awdur peryglus oherwydd ei ddiddordeb mawr yn y gorthrymedig, y diamddiffyn, y tlodion, yr ymylol a'r ysgymun. Mynnodd Luc i ni weld gofâl Iesu am y gorthrymedig, y diamddiffyn, y tlodion, yr ymylol a'r ysgymun fel y peth pwysicaf a godidocaf amdano. Nid pregethu brawdoliaeth yn unig a wnaeth Iesu, meddai Luc, ond dod yn Frawd – dod i berthynas barhaol â ni. Yn Efengyl Luc mae Duw, yng Nghrist, yn brysur wrth ei waith yn lefelu pob mynydd a bryn, yn tynnu tywysogion oddi ar eu gorseddau ac yn dyrchafu'r rhai distadl.

Mae'r sefydliad crefyddol yn Jerwsalem, y sefydliad gwleidyddol yn Rhufain a'r sefydliad academaidd yn Athen dan warchae gan fab bychan y ferch ifanc hon o Nasareth. Ynndo, a thrwyddo, ac o'i herwydd dymchwelir y rhai sy'n dal awenau grym a thrais yn eu dwylo: 'gwasgarodd y rhai balch eu calon; tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau' (Luc 1:51–52). Awdur peryglus oedd Luc am ei fod yn credu mewn Duw peryglus! Duw peryglus sydd yn mynnu cael bod yn agos atom ni: 'fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol... Am hynny, tra-dyrchafodd Duw ef' (Philipiad 2:7–9).

Hanfodion y Nadolig yw dathlu a llawenydd. Hanfodion y Bwrdd yw edifeirwch ac aberth. Tra bod edifeirwch ac aberth yn gyfryngau i ddod â ni yn ôl at Dduw, maent hefyd yn gyfryngau i ddod â phobl at ei gilydd, gan ein hatgoffa bod ein bywyd ni wedi ei blethu â bywyd ein brodyr a'n chwiorydd drwy'r byd. Mae gwir edifeirwch ac aberth yn lefelu bywyd. Myn Mair ein bod yn mawrygu'r Arglwydd oherwydd iddo, ym mhob oes a chyfnod '(d)ynnu yma i lawr... codi draw' (David Charles, 1762–1834; *C.Ff.* 114). Wrth ganu Emyr Mawl Mair ac wrth y Bwrdd rhaid i ni ofyn i ba raddau yr ydym yn hybu'r lefelu hwn, yn cyfrannu iddo... ac i ba raddau yr ydym yn ei rwystro ac yn gweithio yn ei erbyn? Mae ein crefydd yn dueddol o droi ar echel fyfiol iawn; naturiol yw ei ogwyddo tuag at ein hanghenion personol ac unigol. Gwir a diogel echel crefydd yw nyddid myfi – os yw'r Testament Newydd yn dweud rhywbeth o gwbl, mae'n dweud ar bob tudalen na fedra i gael Duw i mi fy hunan yn annibynnol ar fy mrodyr a'm chwiorydd. 'Mae rhwydwaith dirgel Duw, yn cydio pob dyn byw, cymod a chyflawn we Myfi, Tydi, Efe.' (Waldo Williams).

Wrth y Bwrdd, wrth rannu'r bara a'r gwin, cawn ein hatgoffa bod ffydd pob un ohonom yn cynnal ffydd pob un arall. Calon yr Efengyl yw nid Duw, dyn a chyd-ddyn, ond Tad, mab a brawd. Wrth ganu Emyr Mawl Mair wrth y Bwrdd, gofynnir i ni gydnabod ein bod, yn ein ffordd o fyw, yn anfwriadol a bwriadol, yn dyrchafu'r tywysogion ac yn gwthio'r distadl i'r llwch. Gofynnir i ni hefyd ystyried pa ffynnydd a bryn sydd angen i ni lefelu yn ein perthynas ag eraill. Gwahodda Emyr Mawl Mair ni i ddefnyddio'r Adfent fel cyfle i lefelu! Fe'n gwahoddir i wneud hynny yn yr wybodaeth bod ein hymdrech ninnau i lefelu mynydd a bryn ein byw yn cyfrannu'n fawr i ymdrech oesol Duw i wasgaru'r rhai balch eu calon. Wrth ganu Emyr Mawl Mair gofynnir i ni ystyried pa ffynnydd a bryn sydd angen i ni lefelu yn ein perthynas â ni ein hunain. Gwahodda Emyr Mawl Mair ni i ddefnyddio'r Adfent i ddyrchafu'r distadl – y fi tawel a swil hwnnw yn ein byw a'n perthynas ag eraill. Mae'r Emyr hwn yn wahoddiad i ddarostwng y fi fawr hwnnw sy'n mynnu esgus bod yn fwy, gwell, uwch nag ydyw. Ar ddechrau'r Adfent, o amgylch y Bwrdd, mewn edifeirwch, boed i ni gofio ac atgoffa'n gilydd ein bod yn rhan o'r broses o dynnu'r balch oddi ar eu gorseddau ac o ddyrchafu'r rhai distadl. Heb i ni ymroi i hynny byddwn yn rhan o'r broses o gynnal a chadw'r balch ar eu gorseddau, a darostwng y rhai distadl. Ac ni wna hynny'r tro!

Owain Llyr Evans